# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Araith y Frenhines 2012
Mai 2012

Traddodwyd Araith y Frenhines ar 9 Mai 2012.

Roedd yn cynnwys 19 o Filiau a Biliau drafft Senedd y Deyrnas Unedig. Roedd 13 o'r rhain yn berthnasol i Gymru, ond nid yn berthnasol i feysydd datganoledig. Roedd dau yn berthnasol i feysydd lle mae gan Gymru bwerau datganoledig. Mae'r papur hwn yn cynnwys gwybodaeth am bob un o'r Biliau.

Fel arfer, bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn annerch y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn i son am oblygiadau Araith y Frenhines ar Gymru. I'r diben hwn, bydd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS yn dod i'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 23 Mai 2012.

Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1135

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Araith y Frenhines 2012
Mai 2012

Alys Thomas ac Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/022

Gwasanaeth
Ymchwil

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ........ **1**

**2. Biliau a Biliau drafft mewn meysydd datganoledig** ........ **3**

2.1. Y Bil Plant a Theuluoedd ........ 3
2.2. Y Bil drafft ynghylch Dŵr ........ 4

**3. Biliau mewn meysydd nas datganolwyd** ........ **6**

3.1. Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ........ 6
3.2. Y Bil Diwygio'r Sector Bancio ........ 6
3.3. Y Bil Dyfarnwr Cyflenwyr Bwyd ........ 6
3.4. Y Bil Rhoddion Bach ........ 7
3.5. Y Bil Ynni ........ 8
3.6. Y Bil Pensiynau ........ 8
3.7. Bil Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus ........ 8
3.8. Y Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol ........ 9
3.9. Y Bil Diwygio Tŷ'r Arglwyddi ........ 9
3.10. Y Bil Trosedd a Llysoedd ........ 10
3.11. Y Bil Difenwi ........ 10
3.12. Y Bil Cyfiawnder a Diogelwch ........ 11
3.13. Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo'r Penderfyniad i Ddiwygio'r Cytuniad) ........ 11
3.14. Y Bil Derbyn Croatia ........ 11

**4. Biliau drafft** ........ **12**

4.1. Y Bil drafft ynghylch Archwilio Lleol ........ 12
4.2. Y Bil drafft ynghylch Gofal a Chymorth ........ 12
4.3. Y Bil drafft ynghylch Data Cyfathrebu ........ 12

## 1. Cyflwyniad

Traddodwyd Araith y Frenhines ar 9 Mai 2012. Roedd yn cynnwys 19 o Filiau a Biliau drafft Senedd y Deyrnas Unedig. **Roedd 13 o'r rhain yn berthnasol i Gymru, ond nid yn berthnasol i feysydd datganoledig. Roedd dau yn berthnasol i feysydd lle mae gan Gymru bwerau datganoledig**.[1] Hon oedd araith gyntaf y Frenhines ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael pwerau deddfu llawn dros yr 20 maes sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae adran 32 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn creu darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion y Deyrnas Unedig ddod i drafodion y Cynulliad ond nid i bleidleisio, ac mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi: "Caiff y Llywydd alw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i siarad mewn unrhyw ddadl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd rhan ynddi."[2] Fel arfer, bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn annerch y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn i son am oblygiadau Araith y Frenhines ar Gymru. I'r diben hwn, bydd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS yn dod i'r Cyfarfod Llawn **ddydd Mercher, 23 Mai 2012**.

Wrth wneud sylw am Araith y Frenhines ar 9 Mai, dywedodd:

> The legislation we have proposed will continue to benefit the people of Wales as the Government focuses on reducing the deficit and restoring economic stability, reducing and preventing crime, proposing constitutional reforms, and modernising the pension system.
>
> The Government is taking tough, long term decisions to benefit Wales and the United Kingdom. By doing so we can stimulate investment and economic growth, and build a society which is fair and rewards those who work hard and do the right thing. All of the Bills proposed today in the Queen's Speech, bar one have relevance to Wales and it is my aim to work with the Welsh Government to ensure we achieve the very best for Wales.[3]

Mewn perthynas â Chymru, mae briff Swyddfa'r Cabinet ar Araith y Frenhines yn nodi:

> We are discussing with the Welsh Government the implications of our legislative programme for matters devolved to Wales. The UK Government is keen to work hand in hand with the Welsh Government on aspects of the programme which touch on devolved matters. There will be a need for some Legislative Consent Motions in the Assembly, and we will work with the Welsh Government to ensure it can support those motions.[4]

---

[1] Mae dau o'r Biliau'n ymwneud â materion ar Gytuniad Ewropeaidd, a dau'n berthnasol i Loegr yn unig.
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 13.3
[3] **Swyddfa Cymru, *Secretary of State for Wales welcomes the second legislative programme in HM Queen's Speech 9 May 2012*, Datganiad i'r wasg, 9 Mai 2012** [fel ar 10 Mai 2012]
[4] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]

Mae cynnwys y papur hwn yn seiliedig ar y wybodaeth brin a oedd ar gael ar ddiwrnod Araith y Frenhines, a gall newid wrth i drafodaethau rhwng Whitehall a Llywodraeth Cymru barhau ac wrth i Filiau gael eu cyflwyno.

## 2. Biliau a Biliau drafft mewn meysydd datganoledig

### *2.1. Y Bil Plant a Theuluoedd*

Bydd y *Bil Plant a Theuluoedd* yn ymdrin â nifer o feysydd polisi gwahanol. Mae prif elfennau'r Bil fel a ganlyn:

- Cyflwyno newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â **Mabwysiadu** er mwyn rhoi llai o bwys ar faterion yn ymwneud â hil er mwyn dod o hyd i gartref parhaol i blentyn yn gyflymach. Nod hyn yw lleihau'r amser y bydd plant o leiafrifoedd ethnig yn aros cyn gallu cael eu mabwysiadu.
- Pennu terfyn amser o chwe mis i gwblhau achosion sy'n ymwneud â **chyfraith teulu**. Bydd y Bil, hefyd, yn cyflwyno newidiadau er mwyn sicrhau bod plant yn parhau i gael perthynas â'r ddau riant mewn achosion lle bo teuluoedd yn gwahanu, os yw hynny er budd pennaf y plentyn.
- Cyflwyno **absenoldeb hyblyg i rieni**.
- Cyflwyno mwy o ddewis a rheolaeth[5] i deuluoedd dros ofal **anghenion addysgol penodol** arbenigol yn Lloegr.
- Ehangu ar bwerau'r Comisiynydd Plant yn Lloegr i gynnwys hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant. Bydd y Bil, hefyd, yn galluogi'r Comisiynydd i gyflawni swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Hawliau Plant, sy'n rhan o Ofsted ar hyn o bryd.

Bydd darpariaethau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol penodol a swyddfa'r Comisiynydd Plant yn berthnasol i **Loegr yn unig**.

Bydd darpariaethau'n ymwneud â mabwysiadu yn berthnasol i Loegr, ond mae nodiadau briffio Swyddfa'r Cabinet yn nodi: **"The Government will discuss with the Welsh Ministers whether it will be extended to Wales".**[6] Mae'n debygol y bydd angen **cynnig cydsyniad deddfwriaethol** ar y ddarpariaeth hon gan fod pwerau eisioes gan y Cynulliad i ddeddfu ym maes mabwysiadu, fel y'i nodir ym Maes 15: Lles Cymdeithasol o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*:[7]

> Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including **adoption and fostering *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]***). Care of young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons.[8]

Yn ôl nodiadau briffio Swyddfa'r Cabinet, bydd darpariaethau cyfraith teulu preifat a chyhoeddus y Bil yn berthnasol i **Gymru a Lloegr.**[9]

---

[5] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]
[6] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]
[7] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32) (Saesneg yn unig)
[8] Ibid, Atodlen 7 (Saesneg yn unig)
[9] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]

Bydd absenoldeb hyblyg i rieni yn berthnasol i **Gymru, yr Alban a Lloegr** ond nid i Ogledd Iwerddon, lle mae gweithio hyblyg wedi'i ddatganoli.

## *2.2. Y Bil drafft ynghylch Dŵr*

Nod y Bil drafft yw caniatáu i fusnesau a chyrff y sector cyhoeddus gael prisiau mwy cystadleuol a gwella eu heffeithlonrwydd, fel y nodir yn y Papur Gwyn ar Ddŵr, ***Water for Life***.[10]

Mae Llywodraeth y DU yn dadlau mai prif fanteision y Bil fyddai:

- Caniatáu i bob busnes a chorff sector cyhoeddus i newid darparwr dŵr a charthffosiaeth.
- Cynnig rhagor o gyfleoedd i ymgeiswyr newydd ddod i mewn i'r farchnad dŵr a charthffosiaeth a chreu awyrgylch lle mae cwmnïau dŵr yn ymateb yn well i anghenion cwsmeriaid.
- Ysgogi'r farchnad am ffynonellau dŵr, gyda'r potensial i ddatgloi cyflenwadau dŵr newydd a lleihau effeithiau sychder yn y dyfodol.
- Annog cwmnïau dŵr i feddwl yn wahanol am sut i fynd i'r afael â'r her o sicrhau adnoddau dŵr yn y dyfodol a chanolbwyntio ar anghenion eu cwsmeriaid.

Mae prif elfennau'r Bil drafft yn cynnwys:

- Rhoi pecyn i ddiwygio'r farchnad ddŵr a charthffosiaeth ar waith.
- Gwella gallu yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) i reoleiddio cwmnïau dŵr wrth i gystadleuaeth yn y farchnad ddatblygu.
- Caniatáu i gwmpas y rheoliadau caniatáu amgylcheddol i gael ei ehangu o rwystro llygredd i gynnwys tynnu a chronni dŵr. Bydd y broses hefyd yn cynnwys amddiffyn rhag llifogydd a chydsyniadau ar gyfer ysgolion pysgod.
- Gwneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol i leihau a symleiddio beichiau rheoleiddio a gweinyddu.[11]

---

[10] DEFRA, *Water for Life*, Cm 8230, Rhagfyr 2011 [fel ar 10 Mai 2012]
[11] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]

Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd y diwygiadau'n berthnasol i **Gymru a Lloegr** yn bennaf, ond bod lle hefyd ar gyfer cael marchnad fanwerthu dŵr a charthffosiaeth ar y cyd â'r Alban. Fodd bynnag, mae "Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd" yn un o'r 20 maes y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ynddo o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, gyda rhai eithriadau.

> **Water and flood defence**
> 19 Water supply, water resources management (including reservoirs), water quality and representation of consumers of water and sewerage services. Flood risk management and coastal protection.
>
> *Exceptions—*
>
> Appointment and regulation of any water undertaker whose area is not wholly or mainly in Wales.
>
> Licensing and regulation of any licensed water supplier within the meaning of the Water Industry Act 1991 (c. 56), apart from regulation in relation to licensed activities using the supply system of a water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales.[12]

Mae'n debygol y bydd angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, pe byddai'r Bil terfynol yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chronni a thynnu dŵr yng Nghymru, er enghraifft.

Mae gan Lywodraeth Cymru **Femorandwm o Gyd-ddealltwriaeth** â'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr, sy'n ofynnol yn unol ag adran 52(4) o *Ddeddf Dŵr 2003*, er mwyn sicrhau bod trefniadau gwaith effeithiol wedi'u sefydlu rhwng y partïon.

[12] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32) (Saesneg yn unig)

# 3. Biliau mewn meysydd nas datganolwyd

## *3.1. Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio*

Bil pellgyrhaeddol sy'n ymwneud â chystadleuaeth, anghydfodau cyflogaeth, cyflog cyfarwyddwyr a diwygio rheoleiddio. Bydd yn creu **un Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd**, a hynny drwy uno'r Comisiwn Cystadleuaeth a'r Swyddfa Masnachu Teg er mwyn rhoi grym ac arweiniad ar orfodi cystadleuaeth.

Bydd **Banc Buddsoddi Gwyrdd** yn cael ei sefydlu i hyrwyddo buddsoddiad y sector preifat mewn economi wyrddach.[13]

Bydd yn diwygio system y tribiwnlysoedd cyflogaeth drwy ddarparu rhagor o opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau'n gynt drwy'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).

O ran cyflog cyfarwyddwyr, bydd gan randdeiliaid bleidlais rwymol ar dâl cyfarwyddwyr. Bydd y cynllun Prif Awdurdod – lle gall busnesau sy'n gweithio gyda nifer o gynghorau lunio partneriaeth ag un awdurdod, a fydd yna'n cynnig cyngor iddynt – yn cael ei ehangu i gynnwys rhagor o fusnesau. Bydd y Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**, gyda rhai rhannau'n berthnasol i **Gymru**, yr Alban a Lloegr yn unig.

## *3.2. Y Bil Diwygio'r Sector Bancio*

Bwriad y Bil yw meithrin sefydlogrwydd ariannol a sector bancio mwy gwydn. Bydd yn sicrhau bod yn rhaid i fanciau sydd am gynnig gwasanaethau bancio adwerthol i neulltio'r **gwasanaethau hynny oddi wrth weithgareddau buddsoddi'r banc**. Bwriad y Bil yw lleihau'r risg i drethdalwr sy'n gwsmer mewn banc sy'n mynd i'r wal drwy sicrhau bod pobl sydd wedi cadw arian mewn cyfrifon banc yn cael blaenoriaeth dros gredydwyr eraill. Bydd y Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**.

## *3.3. Y Bil Dyfarnwr Cyflenwi Bwydydd*

Bydd y Bil yn creu **Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd** er mwyn rhoi'r **Cod Cyflenwi Bwydydd** ar waith. Y nod yw sicrhau bod y manwerthwyr mwyaf, gan gynnwys yr archfarchnadoedd mawr, yn trin eu cyflenwyr yn deg. Bydd y Bil hwn

---

[13] Bwriad y Banc Buddsoddi Gwyrdd yw hyrwyddo'r sector preifat i fuddsoddi mewn economi wyrddach. Mae'n bosibl y gall rhai darpariaethau ddod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Datblygu Economaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**. Mae **Pwyllgor Busnes, Arloesedd a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin** eisioes wedi craffu ar y **Bil drafft**[14] cyn y broses ddeddfu.

Mae prif elfennau'r Bil yn cynnwys:

- Creu Dyfarnwr, fel sydd wedi'i nodi yn y Bil. Swydd y Dyfarfnwr fydd sicrhau bod manwerthwyr yn cadw at y Cod Cyflenwi Bwydydd. Bydd yn gwneud hyn drwy fod yn ganolwr mewn anghydfodau rhwng manwerthwyr a chyflenwyr bwyd, ymchwilio i gwynion anhysbys a chosbi manwerthwyr sy'n torri'r rheolau.
- Y Comisiwn Cystadleuaeth sydd wedi pennu'r Cod Cyflenwi Bwydydd a chyfrifoldeb y Dyfarnwr Cyflenwi Bwydydd fydd eu cynnal. Mae'n gorfodi manwerthwyr bwyd mawr (y rhai sydd â throsiant blynyddol o dros £1 biliwn yn y DU) i: ymdrin yn deg ac yn gyfreithlon â'u cyflenwyr; peidio amrywio'r cytundebau cyflenwi yn adolygol, ac eithrio mewn achosion sydd y tu hwnt i reolaeth y manwerthwr ac sydd wedi'u nodi'n glir yn y cytundeb cyflenwi; a thalu cyflenwyr o fewn amser rhesymol.
- Yn ogystal, mae'r Cod Cyflenwi Bwydydd yn cyfyngu ar bwerau'r manwerthwyr mawr rhag: gorfodi cyflenwyr i newid eu gweithdrefnau cadwyn cyflenwi na thalu costau marchnata a iawndal am wastraff; gorfodi cyflenwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau gan drydydd partïon sy'n talu i'r manwerthwr am y trefniadau hynny; gorfodi cyflenwyr i dalu iddynt am gadw stoc o'u cynnyrch neu i dalu am hyrwyddo'u cynnyrch; gorfodi cyflenwyr i dalu am ddatrys cwynion gan gwsmeriaid; a "dad-restru" cyflenwyr – mewn geiriau eraill, rhoi'r gorau i ymwneud â chyflenwr neu gwneud gostyngiadau sylweddol i faint o gynnyrch a brynnir gan gyflenwr.[15]

Cynhaliwyd Darlleniad Cyntaf **y Bil** yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2012.[16] Bwriedir cynnal yr Ail Ddarlleniad ar 22 Mai 2012.

## *3.4. Y Bil Rhoddion Bach*

Mae'r Bil hwn yn darparu system newydd o daliadau atodol, sy'n debyg i daliadau Cymorth Rhodd, ar gyfer **rhoddion ariannol bach i elusennau**. Ar gyfer rhoddion sy'n llai na £20, bydd modd i elusennau hawlio 25c am bob £1 a gaiff ei chasglu yn y DU, hyd at £5,000. Bydd y Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**.[17]

---

[14] **Llywodraeth Ei Mawrhydi, *Y Bil drafft ynghylch Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd*, Cm.8080, Mai 2011** (Saesneg yn unig) [fel ar 10 Mai 2012]
[15] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]
[16] ***Y Bil ynghylch Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd* [HL] 2012-13** (Saesneg yn unig) [fel ar 11 Mai 2012]
[17] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]

### *3.5. Y Bil Ynni*

Bwriad y Bil hwn yw diwygio'r **farchnad drydan** er mwyn galluogi buddsoddi ar raddfa fawr mewn **dull o gynhyrchu trydan sy'n isel o ran carbon** yn y DU a sicrhau digon o gyflenwad mewn modd sy'n gost effeithiol.

Mae prif elfennau'r Bil yn cynnwys:

- Cyflwyno system o gymorth ariannol ar gyfer cynhyrchu trydan sy'n isel o ran carbon (tariff cyflenwi trydan gyda Chontractau Gwahaniaeth (FiT-CfD)). Mae Llywodraeth y DU yn dadlau y byddai Contractau Gwahaniaeth yn rhoi gwell sicrwydd o gyllidau ar gyfer cynhyrchu trydan sy'n isel o ran carbon a buddsoddi mewn ynni glân yn fwy deniadol.
- Cyflwyno Safon Perfformiad Allyriadau (EPS) er mwyn cael rheoliad wrth gefn i rwystro gweithfeydd glo newydd, sy'n allyrru mwy na 450g/kWh sef y dull mwyaf niweidiol o ran carbon o gynhyrchu trydan, rhag cael eu hadeiladu.[18]
- Cyflwyno mecanwaith capasiti fel dull o ddiogelu cyflenwad.
- Creu rheolydd statudol annibynnol, a gaiff ei ariannu gan y diwydiant, sef y **Swyddfa dros Reoli Niwclear**.
- Galluogi gwerthu un o asedau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Phiblinell a System Storio'r Llywodraeth (GPSS).
- Cyflwyno Datganiad Polisi a Strategaeth a fyddai'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth y DU ar gyfer y sector ynni yn y Deyrnas Unedig, disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff sy'n gweithredu polisi ynni y Deyrnas Unedig, neu yr effeithir arnynt ganddo, a disgrifio pa ganlyniadau polisi y bwriedir i'r rheolydd a'r Ysgrifennydd Gwladol eu cyflawni wrth reoli'r sector.[19]

### *3.6. Y Bil Pensiynau*

Mae'r Bil hwn yn dwyn oedran pensiwn y wladwriaeth ymlaen i 67 oed rhwng 2026 a 2028 ac yn diwygio pensiwn y wladwriaeth. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i **Gymru, yr Alban a Lloegr** yn unig.[20]

### *3.7. Bil Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus*

Mae'r Bil hwn yn diwygio pensiynau'r sector cyhoeddus. Mae'n trosglwyddo pensiynau'r sector cyhoeddus i gynllun cyfartaledd gyrfa ac yn ymestyn yr oedran

---

[18] Yn dibynnu ar y darpariaethau, mae'n bosibl bod cyfyngiadau ar allyriadau gweithfeydd glo newydd yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[19] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]
[20] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]

y gall aelodau gasglu'u pensiwn. Mae Llywodraeth y DU yn dadlau y bydd hyn yn eu gwneud yn gynaliadwy, gan rannu costau rhwng cyflogwyr, gweithwyr a threthdalwyr yn 'fwy teg'. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i **Gymru, yr Alban a Lloegr** yn unig.

## *3.8. Y Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol*

Mae'r Bil yn cyflwyno **gofyniad newydd ar bleidleiswyr i gofrestru'n unigol** yn hytrach na'r drefn bresennol o gofrestru fesul tŷ.

Nod y Bil yw ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gofrestriadau newydd fod ar y Gofrestr Etholiadol Unigol o 2014. Ar ôl mis Rhagfyr 2015, bydd pawb sydd ar y gofrestr etholiadol yn cael eu cofrestru ar y system newydd.

Cafodd cynigion gwreiddiol Llywodraeth y DU ynghylch cofrestru etholiadol eu nodi am y tro cyntaf mewn **Papur Gwyn a Bil drafft** a gyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2011. Cynhaliwyd ymchwiliad i'r cynigion yn ogystal gan Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin a chyhoeddwyd adroddiad, **Individual Electoral Registration and Electoral Administration**, ar 27 Hydref 2011.

Bydd y Bil yn berthnasol i **Gymru, yr Alban a Lloegr**.

Cynhaliwyd Darlleniad Cyntaf **y Bil** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mai 2012.[21]

## *3.9. Y Bil Diwygio Tŷ'r Arglwyddi*

Nod y Bil yw newid cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi drwy sicrhau bod **mwyafrif yr aelodau yn ail siambr Senedd y DU yn cael eu hethol**. Yn ôl nodiadau briffio Swyddfa'r Cabinet:

> [the Bill would ensure that] the reformed House of Lords reflects society better than it does now by having Members elected **according to the regions and the nations of the UK *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]***.[22]

Bydd y Bil yn cael ei gyflwyno ar ôl i Swyddfa'r Cabinet gyhoeddi'r **Bil drafft ynghylch Diwygio Tŷ'r Arglwyddi** ar 17 Mai 2012.[23] **Cyhoeddodd cyd-bwyllgor ar y Bil adroddiad** ar gynnwys y Bil ar 23 Ebrill 2012. Nid oedd y Pwyllgor hwnnw'n unfrydol yn ei farn, fodd bynnag, gan fod 12 o'i aelodau wedi derbyn argymhellion ychwanegol a gyhoeddwyd mewn **adroddiad arall**.

Bydd y Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**.

---

[21] ***Y Bil ynghylch Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol 2012-2013*** (Saesneg yn unig) [fel ar 11 Mai 2012]
[22] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]
[23] Rhagor o wybodaeth: Papur ymchwil Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cymru a diwygio Tŷ'r Arglwyddi*, Mai 2012

## 3.10. Y Bil Trosedd a Llysoedd

Mae'r Bil hwn yn ymdrin ag ystod o faterion gwahanol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Maent yn cynnwys:

- Sefydlu **Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol** i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol, difrifol a chymhleth, gwella diogelwch ar ein ffiniau, a mynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a seiberdroseddu.
- Sefydlu **system Un Llys Sirol** ac **Un Llys Teulu** er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i drafod achosion i wella effeithiolrwydd systemau'r llysoedd teulu a sifil yng Nghymru a Lloegr.
- Diwygio'r broses benodi farnwrol gyda'r nod o sicrhau **rhagor o dryloywder yn y broses benodi farnwrol a gwella amrywiaeth barnwrol**.
- Galluogi cyflwyno **darlledu achosion llys** o dan amgylchiadau penodol.
- Cyflwyno **trosedd newydd o yrru, neu bod yn gyfrifol am gerbyd modur gyda chrynodiad o sylweddau o dan reolaeth** sy'n uwch na'r lefelau a ganiateir.

  Cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn dilyn ymgyrch a lansiwyd gan y **Croydon Advertiser** a theulu Lillian Groves a gafodd ei lladd yn 2010 gan yrrwr a oedd wedi bod yn ysmygu canabis.[24]

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**, ond gyda rhai eithriadau: "[as it] relates to a mix of transferred and non-transferred matters".[25]

Cynhaliwyd Darlleniad Cyntaf **y Bil** yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 10 Mai 2012, a bwriedir cynnal yr Ail Ddarlleniad ar 28 Mai 2012.[26]

## 3.11. Y Bil Difenwi

Bydd y Bil hwn yn cyflwyno newidiadau i gyfraith difenwi. Mae darpariaethau'r Bil yn cynnwys cyflwyno gofyniad sy'n nodi bod yn rhaid i ddatganiad beri "niwed difrifol" er mwyn iddo fod yn ddifenwol, er mwyn annog pobl i beidio â gwneud hawliadau dinod.

Cafodd y Bil ei gyflwyno yn dilyn cyhoeddi'r **Bil drafft ynghylch Difenwi** gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mawrth 2011. Mae cyd-bwyllgor o ddau Dŷ Senedd y DU eisioes wedi craffu ar y Bil drafft cyn y broses ddeddfu, ac wedi cyhoeddi **adroddiad** ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion ar 12 Hydref 2012.

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i **Gymru a Lloegr** yn unig.

---

[24] HoldTheFrontPage, ***Weekly's drug-driving law could be in Queen's Speech***, 23 Ionawr 2012
[25] Swyddfa'r Cabinet, ***The Queen's Speech 2012 – background briefing notes***, 9 Mai 2012 [fel ar 10 Mai 2012]
[26] ***Y Bil ynghylch Trosedd a Llysoedd 2012-2013* [HL]** (Saesneg yn unig) [fel ar 11 Mai 2012]

Cynhaliwyd Darlleniad Cyntaf [y Bil](#) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mai 2012.[27]

## *3.12. Y Bil Cyfiawnder a Diogelwch*

Nod y Bil yw cryfhau arolygiaeth seneddol o asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU. Bydd hefyd yn creu darpariaeth i lysoedd glywed ystod ehangach o dystiolaeth mewn achosion sy'n ymwneud â diogelwch gwladol, a hynny drwy ddefnydd cyfyngedig o achosion caeedig. Cafodd y Bil ei gyflwyno yn dilyn cyhoeddi **Papur Gwyrdd** gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Tachwedd 2011.

Bydd y Bil hwn yn berthnasol i **holl awdurdodaethau'r DU** (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban).

## *3.13. Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo'r Penderfyniad i Ddiwygio'r Cytuniad)*

Mae'r Bil hwn yn creu darpariaeth ar gyfer cymeradwyaeth seneddol i newid **Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd**, sy'n caniatáu i wledydd yn ardal yr Ewro sefydlu Mecanwaith Sefydlogrwydd Ariannol Ewropeaidd parhaol, sy'n cefnogi gwledydd yn ardal yr Ewro sydd mewn trafferthion.

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**.

Cynhaliwyd Darlleniad Cyntaf **y Bil** yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 10 Mai 2012. Bwriedir cynnal yr Ail Ddarlleniad ar 23 Mai 2012.[28]

## *3.14. Y Bil Derbyn Croatia*

Mae'r Bil hwn yn creu darpariaeth ar gyfer cymeradwyaeth seneddol o **Gytuniad Derbyn Croatia**. Prif nod y Bil yw cadarnhau cefnogaeth Llywodraeth y DU i ehangu'r Undeb Ewropeaidd ac i reoli mewnfudo o Groatia ar ôl iddo gael ei dderbyn.

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU**.

---

[27] ***Y Bil ynghylch Difenwi 2012-2013*** [fel ar 11 Mai 2012]
[28] *Y Bil ynghylch yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo'r Penderfyniad i Ddiwygio'r Cytuniad) [HL] 2012-13* [fel ar 11 Mai 2012]

# 4. Biliau drafft

## *4.1. Y Bil drafft ynghylch Archwilio Lleol*

Mae'r Bil hwn yn diddymu'r Comisiwn Archwilio ac yn nodi trefniadau newydd ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus lleol yn **Lloegr**.

## *4.2. Y Bil drafft ynghylch Gofal a Chymorth*

Mae'r Bil drafft hwn yn ymwneud â:

- Newid y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal a chymorth.
- Ymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi iddo gynnal ymchwiliad tair blynedd i gyfraith gofal cymdeithasol.
- Sefydlu Addysg Iechyd Lloegr fel corff cyhoeddus anadrannol.
- Sefydlu'r Awdurdod Ymchwil Iechyd fel corff cyhoeddus anadrannol.
- Creu Bwrdd Gwella Iechyd yn Llundain.

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i **Loegr** yn unig.

## *4.3. Y Bil drafft ynghylch Data Cyfathrebu*

Mae prif elfennau'r Bil fel a ganlyn:

- Sefydlu **fframwaith sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer casglu a chadw data cyfathrebu gan ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu** i sicrhau bod data cyfathrebu yn dal i fod ar gael i awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau cyhoeddus awdurdodedig eraill.
- Sefydlu fframwaith sydd wedi'i ddiweddaru i hwyluso'r ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus awdurdodedig, gan gynnwys awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau cudd-wybodaeth, yn casglu data cyfathrebu yn gyfreithlon, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- **Sefydlu gweithdrefnau diogelu llym,** gan gynnwys: terfyn amser o 12 mis lle gall darparwyr gwasanaethau cyfathrebu gadw data cyfathrebu a mesurau i ddiogelu'r data rhag cael ei ddatgelu neu ei gyrchu heb ganiatâd. (Y Comisiynydd Gwybodaeth fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am adolygu'r darpariaethau sy'n ymwneud â diogelwch data cyfathrebu a gaiff ei gadw, a'r ffaith y caiff ei ddinisitrio ar ddiwedd y cyfnod cadw o 12 mis).
- Darparu **arolygiaeth annibynnol briodol** gan gynnwys: ehangu rôl y Comisiynydd Rhyng-gipio Negeseuon i oruchwylio'r gwaith a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu o gasglu data cyfathrebu; darparu'r gallu i ddarparwr gwasanaethau cyfathrebu i ymgynghori â chorff llywodraeth

/ diwydiant annibynnol (Bwrdd Cynghori Technegol) i ystyried effaith y rhwymedigaethau sydd wedi'u gosod arnynt; ehangu rôl y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (sy'n cynnwys uwch ffigyrau barnwrol) i sicrhau bod gan unigolion ffordd briodol o wneud cwyn a chael ymchwiliad annibynnol os ydynt o'r farn bod y pwerau wedi'u defnyddio'n anghyfreithlon.

Mae'r Bil hwn yn berthnasol i **bob rhan o'r DU.**